



Llywodraeth Cymru  
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

## Y Gostyngiad Arfaethedig ym maint Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Tachwedd 2017

This document is also available in English.  
Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd yn Saesneg.

## 1. Rhagair

Cafodd yr Ymgynghoriad ar y Gostyngiad Arfaethedig ym maint Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (BBNPA) ei gyhoeddi ar 11 Ebrill a daeth i ben ar 29 Mehefin 2017.

Mae Gorchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) 1995 yn pennu maint Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru a'r Awdurdodau Lleol sy'n cael dewis aelodau iddynt. Mae Atodlen 2 yn nodi bod yn rhaid bod gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 24 o aelodau, gyda 16 ohonynt yn cael eu penodi gan saith o'r prif gynghorau, ac 8 ohonynt yn cael eu penodi gan Weinidogion Cymru. Mae gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 18 aelod yr un. Cynyddodd aelodaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro o 15 yn sgil Gorchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2007.

Y cynnig gwreiddiol oedd gostwng nifer aelodau BBNPA o 24 i 18 aelod. Mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn teimlo y gallai, gyda 18 aelod, adolygu'r strwythur pwyllgorau gan sicrhau na fyddai'r broses gwneud penderfyniadau nac atebolrwydd yn dioddef. Dywedodd BBNPA hefyd y byddai bwrdd llai yn gyson â llywodraethu da ac y byddai'n dechrau proses o dynhau'r ffocws ar fusnes Awdurdod y Parc a'i effeithlonrwydd. Mae'r Awdurdod yn awgrymu y gallai bwrdd llai arwain at arbedion blynyddol o £40,000 trwy leihau'r bil cyflogau i aelodau yn ogystal â gostwng eu costau cynefino, hyfforddi a theithio.

Disgrifiwyd y cynnig i leihau maint y BBNPA o 24 o aelodau i 18 yn yr ymgynghoriad, trwy leihau nifer aelodau'r Awdurdodau Lleol o 16 i 12 a'r nifer a benodir gan Weinidogion Cymru o 8 i 6. Mae'r tabl isod yn dangos sut y cynigiwyd yn yr Ymgynghoriad i rannu aelodau'r Awdurdodau Lleol:

Enw'r Cyngor	Cyfredol	Arfaethedig	Newid
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	1	1	-
Cyngor Sir Caerfyrddin	2	1	-1
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	1	1	-
Cyngor Sir Fynwy	2	1	-1
Cyngor Powys	8	6	-2
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	1	1	-
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	1	1	-
<b>Cyfanswm</b>	<b>16</b>	<b>12</b>	<b>-4</b>

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi safbwyntiau'r rheini sydd wedi ymateb i'r ymgynghoriad. Cewch gopi ohoni ar wefan Llywodraeth Cymru:

<https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/gostyngiad-arfaethedig-ym-maint-awdurdod-parc-cenedlaethol-bannau-brycheiniog>

Daeth pum ymateb i law. Yr ymatebwyr oedd:

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (PCNPA),

- Cyngor Sir Caerfyrddin,
- Cyngor Sir Fynwy,
- Cyngor Sir Powys, ac
- Unigolyn

Cyrhaeddodd ymateb yr unigolyn ar ôl i'r ymgynghoriad gau ond rydym wedi'i ystyried ac wedi'i gynnwys yn y crynodeb hwn. Ni chafwyd ymatebion gan bedwar o'r Awdurdodau Lleol y bydd y cynigion hyn yn effeithio arnyn nhw.

## **2. Yr Ymatebion i'r Ymgynghoriad**

Gweler isod ddadansoddiad o'r ymatebion i'r Ymgynghoriad:

### **Cwestiwn 1: Beth yw eich barn am y cynnig i leihau aelodaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog o 24 i 18?**

Roedd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (PCNPA) yn gefnogol i'r cynnig i leihau nifer aelodau'r BBNPA o 24 i 18 am mai 18 o aelodau sydd ganddyn nhw a'u bod yn ddigon i ofalu am ei drefniadau llywodraethu a goruchwyllo fel Awdurdod Parc Cenedlaethol. Nid yw'n gallu gweld pam na allai BBNPA lwyddo hefyd. Cyfeiriodd PCNPA hefyd at broses Tirweddau Dyfodol Cymru (FLW) sy'n tanlinellu'r angen i gyrff tirweddau dynodedig ddatblygu fframweithiau llywodraethu sy'n ateb eu gofynion. Gan mai syniad y BBNPA ei hun yw'r cynnig i leihau nifer yr aelodau, mae PCNPA yn gweld y cynnig fel enghraifft o roi dyheadau'r FLW ar waith.

Nid oedd Cynghorau Sir Fynwy na Chaerfyrddin yn wrthwynebus i'r cynnig i leihau nifer yr aelodau o 24 i 18 ond roedd ganddyn nhw farn bendant ynghylch sut y dylid gwneud hynny (gweler Cwestiwn 2 isod). Dywedodd Cyngor Sir Powys na fyddent yn gallu cytuno ar y gostyngiad oni châi nifer o amodau eu bodloni (gweler Cwestiwn 2 isod). Roedd yr unigolyn yn wrthwynebus am sawl rheswm gan gynnwys y byddai'n arwain at gynyddu baich gwaith yr aelodau fyddai'n weddill ac y câi effaith negyddol ar ansawdd llywodraeth a gwasanaethau BBNPA. Awgrymodd hefyd fod mwyafrif yr aelodau Awdurdodau Lleol sydd newydd eu penodi wedi dangos eu bod gwrthwynebu'r egwyddor o leihau nifer yr aelodau.

### **Cwestiwn 2: Beth yw eich barn am y cynnig arfaethedig i rannu aelodaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog rhwng y saith prif awdurdod a Gweinidogion Cymru fel y nodir yn Nhabl 3?**

Dywedodd Cyngor Sir Powys nad ydyn nhw o blaid gostwng nifer yr aelodau a benodir ganddyn nhw gan fod 80% o'r Parc Cenedlaethol o fewn ffiniau'r sir. Mae'r Cyngor yn dadlau y dylai'r gostyngiad ddod o leihau nifer yr aelodau a benodir gan Weinidogion Cymru oherwydd, yn eu barn nhw, nid yw'r aelodau hyn wedi cael unrhyw fandad gan drigolion y Parc ac nid oes ganddynt gysylltiad â'r trigolion na dealltwriaeth o'u hanghenion. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin hefyd yn gwrthwynebu lleihau nifer yr aelodau y maen nhw'n cael eu penodi gan fod ganddyn nhw fwy o dir yn y parc (16.7%), heblaw am Bowys, na'r Awdurdodau Lleol eraill.

Roedd Cyngor Sir Fynwy'n gwrthwynebu'r ffordd y bwriedir rhannu aelodau gan awgrymu yn lle hynny defnyddio maint poblogaeth pob Awdurdod Lleol yn y Parc Cenedlaethol fel sail ar gyfer rhannu'r aelodau. Dywedodd Cyngor Sir Fynwy mai nhw sydd â'r boblogaeth ail fwyaf yn y BBNP.

Awgrymodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, gan nad yw aelodau'n cynrychioli etholaethau a bod disgwyl iddynt ystyried y Parc Cenedlaethol yn ei gyfanrwydd, na ddylai nifer yr aelodau o bob Awdurdod Lleol fod yn ffactor mor dyngedfennol â hynny.

### **Cwestiynau 3 a 4:**

**Hoffem gael eich barn am y ffordd y gall lleihau aelodaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog effeithio ar y Gymraeg, yn benodol ynglŷn â:**

- i. cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a**
- ii. trin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg.**

**Yn eich barn chi, beth fyddai'r effeithiau? Sut y gellir cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

**Nodwch hefyd sut y credwch y gellir llunio'r camau gweithredu arfaethedig neu eu newid fel y gallant**

- I. effeithio'n gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin yr Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a**
- II. sicrhau nad oes unrhyw effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin yr Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**

Dywedodd Cyngor Sir Caerfyrddin mai ganddyn nhw oedd y boblogaeth uchaf o siaradwyr Cymraeg o'r holl Awdurdodau Lleol oedd yn penodi aelodau i BBNPA (43.9%) a themlent y byddai cadw dau aelod yn diogelu cymunedau dwyieithog ac yn sicrhau bod digon o gynrychiolaeth ddwyieithog ar BBNPA. Dywedon nhw hefyd y byddai'r aelodau y bydden nhw'n eu penodi'n sicrhau bod yr APC yn ysgwyddo'i gyfrifoldebau o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Dywedodd Cyngor Sir Fynwy y ceir yn eu wardiau o fewn y Parc rai o'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yn Sir Fynwy (hyd at 11.7%) a'i bod yn hanfodol cynrychioli cymunedau Sir Fynwy'n briodol i sicrhau y cynhelir cyfleoedd i bobl siarad Cymraeg. Roedd Cyngor Sir Powys yn teimlo y gallai gostwng nifer ei aelodau arwain at ostwng nifer ei aelodau Cymraeg a lleihau'r awydd i ddefnyddio'r Gymraeg yn BBNPA.

I grynhoi felly, roedd Cynghorau Sir Fynwy, Powys a Chaerfyrddin yn teimlo y gallai gostyngiad yn nifer eu haelodau neu ostyngiad yn eu haelodau gael effaith andwyol ar ddefnyddio'r Gymraeg yn BBNPA. Ni chafwyd sylw ar gwestiynau 3 a 4 gan yr ymatebwyr eraill.

**Cwestiwn 5: Rydym wedi gofyn dau gwestiwn penodol. Os oes unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y blwch hwn i'w nodi.**

Mae'r ymgynghoriad yn datgan bod BBNPA wedi cyfrif y gallai gostwng nifer yr aelodau olygu arbedion blynyddol o £40,000. Daw'r arbedion yn uniongyrchol o beidio â thalu cyflog i aelodau, yn ogystal â llai o gostau cynefino/hyfforddiant a threuliau teithio. Cynigiodd rhai ymatebwyr ffyrdd eraill o arbed arian yn lle gostwng nifer yr aelodau. Argymhellodd Cyngor Sir Powys, er enghraifft, bod cyfrifoldebau cynllunio statudol BBNPA yn cael eu tynnu oddi arnyn nhw er mwyn i'r Cyngor Sir fod yr awdurdod cynllunio yn y rhan o Bowys sydd yn y Parc. Dywedodd yr unigolyn y byddai llawer o'r aelodau'n barod i aberthu eu tâl er mwyn arbed arian a mynegodd Cyngor Sir Fynwy ddiddordeb mewn cydweithio â BBNPA i glustnodi cyfleoedd i arbed costau.

Mae Cyngor Sir Powys yn credu, yn hytrach na gostwng nifer yr aelodau a gostwng cynrychiolaeth ddemocrataidd leol drwy hynny, dylid ystyried trefniadau llywodraethu newydd sy'n gysylltiedig ag atebolrwydd lleol. Awgrymon nhw hefyd y dylid ailystyried diben yr APC ac y dylai BBNPA roi mwy o bwyslais ar annog datblygu'r economi.

### **3. Camau Nesaf**

Cafodd yr ymgynghoriad *Bwrw Ymlaen â Rheoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy* ei gyhoeddi ar 21 Mehefin 2017 a'i gau ar 30 Medi 2017. Rhoddodd yr ymgynghoriad nifer o gynigion ger bron mewn cysylltiad â thirweddau dynodedig gan gynnwys gofyn barn ynghylch esblygu trefniadau llywodraethu i adlewyrchu amgylchiadau lleol.

Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu ystyried yr ymatebion i'r ddau ymgynghoriad cyn datgan a yw'n credu y byddai trefniadau llywodraethu'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, gan gynnwys maint ac aelodaeth BBNPA, yn elwa o gael eu newid.